

Arweiniad ar Sŵn Tân Gwylt

Mae tân gwylt yn cael eu defnyddio'n helaeth i ddynodi dathliadau cyhoeddus a phreifat, yn enwedig dros gyfnod Noson Guto Ffowc a Nos Galan.

Pa gyfreithiau sy'n ymwneud â'r niwsans a'r perygl a achosir gan dân gwylt?

Os oes swyddog i'r awdurdod lleol yn dyfarnu bod sŵn tân gwylt yn niwsans statudol o dan Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990, gallan nhw gyflwyno Hysbysiad Atal Sŵn.

Fodd bynnag, oherwydd mai byrhoedlog ydy natur sŵn tân gwylt, gall fod yn broblem ymarferol dod o hyd i darddiad y sŵn.

O dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, mae gan awdurdodau lleol bŵer i gyflwyno hysbysiad ymddygiad gwrthgymdeithasol i unrhyw un sy'n achosi 'aflonyddwch, braw neu ofid'. <ae anufuddhau i'r gorchymyn yn golygu dedfryd carchar o hyd at 5 mlynedd.

Pryd galla i ddefnyddio tân gwylt?

Mae'r rheolau hyn hefyd yn gwahardd defnydd tân gwylt yn ystod y nos (11:00pm–7:00am) yng Nghymru a Lloegr, ac estyniad ar gyfer y gwyliau isod:

- Hyd at 1:00am ar noson y Flwyddyn Newydd Chineaidd
- Hyd at 1:00am ar noson Diwali
- Hyd at 1:00am Nos Galan
- Hyd at ganol nos ar 5 Tachwedd

Osgoi codi braw gyda tân gwylt

Nid oes angen byddaru pobl eraill i fwynhau! Gallwn ni ei mwynhau yn ddiogel heb achosi poendod i'n cymdogion, eu hanifeiliaid anwes a'u da byw, neu i fywyd gwylt.

Os ydych yn cynnal sioe tân gwylt, cofiwch y canllawiau syml isod:

- Dywedwch wrth eich cymdogion, yn enwedig ydyn nhw'n hŷn, neu os oes plant neu anifeiliaid yn y tŷ
- Defnyddiwch dân gwylt addas sy ddim yn rhy swnllyd. Dylai'ch gwerthwr fod yn gallu dweud wrthoch chi beth maen nhw'n ei werthu
- Gwnewch yn siŵr fod anifeiliaid o bob math yn cadw'n ddiogel o bell oddi wrth y tân gwylt
- Ystyriwch yr amseru – os ydych chi'n defnyddio tân gwylt ar gyfer dathliad, nos Wener neu nos Sadwrn sydd orau, a dylen nhw fod wedi gorffen cyn 11.00pm

- Ceisiwch osgoi tanio tân gwyllt mewn tywydd anaddas – os ydy hi'n niwlog ac yn llonydd neu mae ansawdd yr awyr yn wael, gallai llygredd fod yn broblem. Gall gwynt cryf fod yn beryglus. Cynheiwch eich tân gwyllt mewn ardal agored – mae sŵn yn adlamu oddi ar adeiladau, a gall mwg a llygredd ddwysáu mewn gofodau cyfyng
- Os oes cymydog yn cwyno eich bod yn tarfu arnyn nhw, eu hanifeiliaid anwes neu eu da byw, byddwch yn ystyrlon
- Cofiwch dacluso ar ôl eich sioe, a chael gwared â phopeth yn ddiogel.

Oherwydd cost tân gwyllt, ychydig iawn o sioeau fyddai'n parhau'n ddigon hir i'n swyddogion eu cyrraedd cyn iddyn nhw (a'r dystiolaeth fyddai ei hangen arnon ni) ddiflannu.

Am wybodaeth am ddiogelwch tân gwyllt, cysylltwch â'r Yr Adran Busnes, Menter ac Adolygiad Rheoliadol, sy'n cydlynu ymgyrchoedd diogelwch tân gwyllt cenedlaethol:

Cyfeiriad:

Yr Adran Busnes, Menter ac
Adolygiad Rheoliadol,
1 Victoria Street,
Llundain
SW1H 0ET

Rhif ffôn: 020 7215 5000

Ebost: enquiries@bis.gsi.gov.uk